tafod elái

Ebrill 2021

Rhif 356

Pris £1

Cân i Gymru

Llongyfarchiadau mawr i Daniel Williams o Bentre'r Eglwys ar gyrraedd rownd derfynol Cân i Gymru gyda'i gân 'Y Bobl'. Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Rhydfelen, cyfansoddodd Daniel ei gân wrth gofio stori Cantre'r Gwaelod ers yr ysgol gynradd. Cafodd ei ysgogi i gystadlu ar ôl mwynhau rhaglen Cân i Gymru y llynedd. Dyma'r tro cyntaf iddo gystadlu, felly tipyn o gamp oedd llwyddo i fod yn un o'r wyth cân a ddewisodd y beirniaid o ddegau o ganeuon gan artistiaid profiadol.



Daniel Williams

Daw Daniel o deulu di-Gymraeg, ac rydym yn falch iawn fod cymaint o ddisgyblion o'n hysgolion Cymraeg yn parhau i gymryd diddordeb ac i lwyddo yn y bywyd Cymraeg.

Y gantores ddawnus Lily Beau oedd yn canu ei gân, ac mae i'w chlywed yn aml ar Radio Cymru – cadwch glust amdani. Llongyfarchiadau calonnog iddo, a gobeithio y cawn glywed ei enw eto yn y dyfodol. Eiri Angharad

Lily Beau

Clwb y Bont

Er bod drysau'r Clwb ar gau ers Chwefror llynedd, mae'r pwyllgor wedi parhau'n brysur dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydych eisoes yn ymwybodol o gefnogaeth arbennig gwirfoddolwyr gyda'r gwaith clirio a chodi arian yn dilyn y llifogydd. Efallai eich bod chi hefyd yn cofio ymweliad Prosiect Pum Mil â'r Clwb yn ystod Hydref llynedd a darlleiddiad y rhaglen arbennig ar S4C cyn y Nadolig. Mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur hefyd, gyda chefnogaeth DJ Associates a Menter iaith RhCT yn llunio ceisiadau ariannol, creu cynllun busnes newydd a thrafod datblygiad y clwb gyda rhanddeiliaid.

Y newyddion cyffrous diweddaraf yw bod y clwb wedi sicrhau nawdd gan gronfa CFAP Llywodraeth Cymru o £101,000 tuag at adnewyddiad llawr gwaelod y clwb. Bydd hyn yn cynnwys symud y selar, toiledau newydd a thoiled anabl pwrpasol, drysau a ffenestri newydd a grisiau saff i'r llawr cyntaf er mwyn gallu defnyddio'r stafelloedd ar y llawr hwnnw. Rhan o ddatblygiadau'r clwb yw hyn.

Mae ceisiadau eraill wedi eu cyflwyno er mwyn ymestyn ar y gwaith hwn ac rydym wedi dechrau cynllunio ac ymgynghori ar y datblygiadau nesaf i'r llawr cyntaf.

Gwahoddwn chi i ymuno a'r ymgynghoriad hwnnw trwy lenwi'r holiadur trwy ddilyn y linc sydd ar gael ar dudalennau facebook Clwb y Bont a Menter Iaith RhCT. Diolch o flaen llaw i chi am eich cefnogaeth a'ch dymuniadau da i'r Clwb arbennig hwn yng nghanol tref Pontypridd.

Etholiadau'r Cynulliad

Mae'r etholiadau ar Fai 6ed yn allweddol i osod agenda Cymru am y ddegawd nesaf.

Mae angen dybryd i ddarparu adnoddau ychwanegol i gyrraedd nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cofiwch ystyried pwy fydd yn fwy tebygol o weithredu cynlluniau i wireddu hyn wrth bleidleisio.

Cydnabod Gwaith Gwirfoddol

I gydnabod y gwaith cymunedol a gwirfoddol arbennig mae John Llywelyn Thomas yn arwain, ac aelodau Capel Tabernacl wedi cyflawni, yn ystod cyfnod clo Covid-19 daeth Uchel Siryf Morgannwg Ganol, Jason Edwards, i'r Capel. Cyflwynwyd tystysgrif i John a derbyniwyd tysgrif y Capel gan Mike a Iwan West.

Dyma gyfieithiad o'r tystysgrif -

Uchel Siryf
Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig
Cyflwynwyd y wobr yma gan
Uchel Siryf Morgannwg Ganol
i Tabernacl, Efail Isaf.
Am eich gwasanaeth i'r gymuned a'r gwaith gwirfoddol rydych nawr yn ei gefnogi yn ardal ehangach cymuned Pontypridd.
Mae'r tystysgrif hwn yn cydnabod gwerthfawrogiad pobl Morgannwg Ganol am y trugaredd a'r ymrwymiad roddwyd tra'n darparu gwasanaethau yn ystod y pandemic Covid-19.
Dyddiad 25 Mawrth 2021
Jason Michael Edwards,
Uchel Siryf
a Rheolwr Gyfarwyddwr
Cwmni Bysiau Edwards.
Eang yw'r Byd i Bawb.

Tanysgrifio £10 i Tafod Elái

Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.

Ewch i TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cerdyn debyd neu credyd.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
29 Ebrill 2021

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Croeso
Llongyfarchiadau i Bridie (Morris gynt) ac Ashleigh, Pentre'r Eglwys ar enedigaeth Efan Gruffydd. Brawd bach i Dylan ac ŵyr i Ieuan a Jo Morris , Graigwen. Mae Bridie yn gyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen.

Merched y Wawr
Diolch i Wil Morus Jones am ein tywys mis diwetha i Drefor, Pontypridd a Bangladesh yn ei sgwrs am dri lle sy'n bwysig iddo.

Bydd y gangen yn cwrdd nesa ar Zoom nos Iau, Ebrill 8fed am 7.00 pan fydd Rhuanedd Richards, Pennaeth Radio Cymru yn westai.

Clwb llyfrau
Ymunwch a ni bnawn Llun, Ebrill 12fed am 3.15 p.m. i drafod cyfrolau Cymraeg a Saesneg.

Daeth haul ar fryn!
Newyddion gwych i nifer o ddarllenwyr y Tafod ym Mhontypridd wrth iddynt dderbyn yr ail frechlyn.

Ar ôl difrod yn y llifogydd dros flwyddyn yn ôl o'r diwedd mae pont 'M&S' ar agor i'r cyhoedd.

Llongyfarchiadau i Glwb y Bont wrth iddynt fod yn llwyddiannus mewn cais grant sylweddol i wneud gwelliannau mawr i'r adeilad.

Colled
Fe ddaeth y newyddion trist ddiwedd mis diwetha am farwolaeth Keith Davies, Caerdydd (Tonteg gynt). Mae Clwb y Bont wedi colli un o'i sylfaenwyr gwreiddiol ac un oedd yn driw i'r Clwb tan y diwedd. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei bartner Sandra, oedd yn byw am flynyddoedd yn Graigwen, a'i blant Elin, Owain a Rhys.

PENTRE'R EGLWYS

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Rae a John Phillips a'r teulu, ar ôl iddynt golli mam Rae yn ddiweddar. Roedd hi'n 97 oed ac wedi gallu byw yn annibynnol yn y gorllewin tan wythnos yn unig cyn y bu farw. Cofion atoch.

Ledis prysur!

Bydd unrhywun sy'n adnabod yr annwyl Loreen Williams yn dda yn gwybod yn iawn nad yw hi byth yn segur. Tystia muriau'r tŷ i'w dyfeisgarwch crefftus ar ffurf sampleri a lluniau 'di croesbwytho. Wel, mewn partneriaeth â'r bardd Emlyn Davies, Pentyrch mae Loreen wedi creu sampler bendigedig i goffau prif ddigwyddiad y flwyddyn 2020 - sef yr aflwydd Covid 19. Wele'r lluniau!

'Hy yw'r haint a'r her o'i ôl
A ddwg i'r byd meddygol.'
'Daw golau 'r ôl dyddiau du
A nosau'r ymynysu.'
E.D.

Llongyfarchiadau eich dau!

Un arall sy' byth yn llonydd yw Jan Erskine. Mae gan Jan hithau dalentau rif y gwlith ac yn ystod y cyfnodau clo mae Jan wedi bod yn hynod gynhyrchiol! Gyda'i llygaid craff mae'n gweld y byd trwy lygaid artist ac yn cofnodi hyn yn ei gwaith arlunio hyfryd. Golygfeydd, cameos o fyd natur, portreadau aesthetig - cymaint o amrywiaeth yn ei phort-ffolio! Wel, bellach mae rhywfaint o waith Jan ar gael ar ffurf cardiau cyfarch fel y gwelwch yn y lluniau isod. Am fanylion pellach neu i archebu cysyllter â jerskine1@sky Pecyn o 3 yn £5 neu cardie unigol am £2. Pob lwc gyda'r

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Monty Don? Ma' 'da ni John!
Llongyfarchiadau mawr i John - a Richard - Waunwyllt - ar serennu yn rhifyn Sul, y 7fed o Fawrth o'r Telegraph! Tipyn o sbloets! Dewiswyd gardd (gerddi) Waunwyllt yn un o chwech yn unig y dylid ymweld â nhw eleni fel rhan o gynllun Gerddi Agored yr NGS! Tipyn o anrhydedd - ac fel y gŵyr unrhywun sy' wedi bod ddigon ffodus i ymweld â gardd John dros y blynyddoedd mae'n brofiad arbennig iawn! Yn ychwanegol at y wledd i'r llygad a'r synhwyrau - mae parodrwydd John i rannu cyngor, ac i ateb unrhyw gwestiwn dan haul am blanhigion, blodau, llysiau . . . unrhywbeth sy'n tyfu - yn ein gwneud ni'n freintiedig iawn. A bwrw bod y cyfyngiadau presennol yn cael eu llacio rhyw ychydig bydd gardd Waunwyllt ar agor i'r cyhoedd ddydd Sul, Mehefin yr 20fed.

SIX OF THE BEST SMALL GARDENS TO VISIT THIS YEAR

Tudalennau'r Sunday Telegraph 7 Mawrth

Merched y Wawr

Cofio Elen Lewis, Radur

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i David a Melanie Lewis a William, a Gareth wrth gwrs yn eu profedigaeth o golli Mam a Mam-gu annwyl iawn. Bu farw Elen nôl ym mis Chwefror eleni. Ledi hyfryd. Yn hardd ar y tu mewn ac ar y tu allan. Roedd Elen yn gyfaill i gymaint.- wedi bod yn weithgar fel aelod o gorau, o Ferched y Wawr, clybiau cerdded ac wrth gwrs ei chapel, Bethlehem, Gwaelod y Garth a olygai cymaint iddi. Diolch i Marian Evans am rannu ei theyrnged gynnes, gynhwysfawr gyda ni.

Elen Hefina Lewis
Un o blant Rhosgadfan oedd Elen. Maen nhw'n deud bod yn rhaid i chi fynd i Fôn i weld gogoniant Eryri. Ond rhaid i chi fynd i Rosgadfan i weld Caernarfon, traeth y Foryd ac Ynys Môn.

Ar dyddyn o'r enw Caea Uchaf y magodd Richard ac Alys Jones eu dwy ferch, Elen a Leah. Roedd bywyd chwarelwr o dyddynwr yn galed ond fe roddodd ei rhieni fagwraeth gyfoethog i Elen a Leah - yn y gymdeithas, y Capel ac ar yr aelwyd. Hoffter ei thad o farddoniaeth feithrinodd gariad Elen at iaith.

Fe aeth Elen i'r ysgol fach leol, yna i Ysgol Ramadeg Caernarfon a chafodd gynnig lle yn y Brifysgol. Ond athrawes ysgol gynradd oedd hi am fod a dewisodd fynd i'r Coleg Normal ym Mangor.

Tra'n treulio dwy flynedd yno mi gwrddodd hi â John Lewis o'r Tymbl – chwaraewr rygbi a thenis, athletwr a chricedwr, oedd newydd ddod o'r fyddin. Aeth John i Lundain i ddysgu, ac er fod Elen wedi treulio blwyddyn yn Birmingham, yn y man fe ddilynodd John i Lundain a chael swydd mewn ysgol gynradd enfawr yn Leighton. Yna symudodd i ddysgu Mathemateg mewn Ysgol Uwchradd – arwydd o'i dawn i addasu ei sgiliau a bod yn hyblyg yn ei gyrfa. Yn Llundain y priododd hi a John ac yno ganed eu dau fab, Gareth a David. Yna cafodd John swydd yn Cheltenham cyn symud yn ôl i Radur yn 1975 – ac yno gwnaethon ni gwrdd, gan ein bod yn byw ar yr un stryd.

Bu mewn swyddi yn Ysgol Bryntaf ac Ysgol Gyfun Radur ac yn ei thro yn cynnal gwersi preifat, oedd yn aml iawn ymhell dros yr hanner awr oedd ar eu cyfer. Fe gefais i'r fraint o'i chael yn athrawes lanw yn fy ysgol i. Gallai droi ei llaw at addysgu unrhyw oedran o 3 i 11 ac fe barhaodd hynny hyd yn oed ar ôl oedran ymddeol!

Roedd gan Elen lawer iawn o ddiddordebau, mewn gwahanol gymdeithasau – Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Cymdeithas Gerdd Radur, Y Cylch Cinio, Probus a Gwersi Eidaleg. Ac wrth gwrs, roedd Capel Bethlehem a'r Cwrdd Merched yn annwyl iawn iddi.

Roedd hi'n hoff o berfformio ac yn paratoi'n fanwl ond byth yn hyderus os oedd pethau'n ddigon da.
"Oedd hwnna'n iawn?" oedd ei chwestiwn.

Roedd hefyd yn gogyddes dda ac yn arbrofi cryn dipyn. Ac roedd hi'n dwli ar ddillad! Deuai galwad wrth ein drws cefn - "Cooeee, Marian!"– lle roedd hi'n sefyll mewn gwisg newydd, gyda'r esgidiau a'r mwclis i fatsio!

"Beth ti'n feddwl?"

Ymhen rhai wythnosau, byddwn yn holi am y rig-owt – roedd wedi ei dychwelyd i'r siop!

Fel teulu, fe gawson nhw lawer i haf pleserus yn eu carafán, naill ai'n Ffrainc neu Drefdraeth ac yn ddiweddarach bu ar sawl gwyliau gyda Gareth yn Sbaen a Lanzarote. Roedd ei hwythnos yn llawn rhwng sawl coffi, dysgu Cymraeg yn y dre, cerdded a siopa dillad.

Ond bu i gyfnod y pandemig herio llawer ar ei hysbryd. Byddai'n parhau i alw yn ein drws cefn ac adrodd am ei nosweithiau di-gwsg ac yna'n sirioli gan ddweud, "Tyrd Elen fach, cwyd dy ysbryd!"

Roedd ei bywyd yn amrywiol a lliwgar fel cwilt – darnau bach wedi eu rhoi at ei gilydd i greu cyfanwaith diddorol.

Diolch am gael ei hadnabod.

Marian Evans

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

Y "Cenau Tew"

Wrth wneud ymchwil ar gyfer fy sgyrsiau radio gyda Siân Cothi dwi'n aml yn dod ar draws ffeithiau a straeon diddorol, ac wrth baratoi yn ddiweddar ar gyfer siarad am 'Y Te Prynhawn' des i wybod mwy am y caffis te Bettys a'u cacennau enwog - y 'Fat Rascals'.

Tybed oes unrhyw un ohonoch wedi ymweld ag un o gaffis Bettys ar eich taith o amgylch Swydd Efrog? Mae hanes diddorol i'r cwmni.

Ar ôl colli ei rieni yn ifanc, treuliodd Fritz Bützer, oedd yn enedigol o'r Swistir, ei arddegau mewn prentisiaethau ar gyfer pob math o bobyddion ledled Ewrop. Ei uchelgais oedd teithio i Loegr i sefydlu ei fusnes ei hun ac yn 1907 prynodd docyn unffordd i Lundain. Dywed chwedl y cwmni iddo golli'r wybodaeth am swydd oedd yn aros amdano yn ystod ei siwrne llong ar fôr garw. Yn methu â siarad na deall Saesneg ac yn brin o arian aeth ar drên i Swydd Efrog ar ddamwain. Roedd yn cofio bod enw'r dref roedd i fynd iddi yn swnio rhywbeth fel "bratwurst" - ac fe'i cyfeiriwyd at Bradford. Yn ffodus roedd cefn gwlad hardd ac awyr glir Swydd Efrog yn ei atgoffa o'r Swistir ac fe benderfynodd aros.

Newidiodd ei enw i Frederick Belmont ac ar ôl treulio amser yn gweithio i gwmni o wneuthurwyr danteithion melys, a phriodi merch leol, agorodd y Caffi Te Bettys cyntaf yn nhref sba ffasiynol Harrogate yn 1919. Profodd y cyfuniad o felysion y Swistir a'r lleoliad fod yn llwyddiant. Dros y ddau ddegawd nesaf agorodd Frederick fwy o ganghennau yn Swydd Efrog, gan gynnwys cangen flaenllaw yn Efrog wedi'i modelu ar long fordaith y Frenhines Mary. Yn 1962 prynwyd cwmni Taylors, oedd yn berchen caffis ac yn fasnachwyr coffi a the, gan ddod yn Bettys & Taylors. Mae'r cwmni yn parhau yn nwylo'r teulu gyda 6 caffi / stafelloedd te poblogaidd, eu poptai eu hunain ac ysgol goginio yn swydd Efrog. Er bod sawl damcaniaeth nid oes unrhyw un yn siŵr iawn pwy oedd ' Betty '.

Eu bwyd te mwyaf poblogaidd yw'r Fat Rascal. Wrth edrych trwy nifer o erthyglau mae'n amlwg nag oes cytundeb ar darddiad, disgrifiad na rysáit ar gyfer y cynnyrch pob hwn. Maent yn tarddu o Swydd Efrog a Durham, ac yn boblogaidd iawn yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Credir iddynt gael eu gwneud ers canol y 19eg Ganrif o dan yr enw Fat Rascals, er mae'n debyg bod y rysáit ar gael yn oes Elisabeth 1af. Efallai mai addasiad ydynt o 'Turf Cakes', cacennau bach wedi'u gwneud gyda thoes neu grwst oedd dros ben ar ddiwedd y dydd ac wedi'u coginio dros danau tyweirch. Mae'r rysáit wreiddiol yn defnyddio lard sy'n arwain at y darn cyntaf o'u henw "Fat". Mae 'Geirfa Geiriau ac Ymadroddion Swydd Efrog a Gasglwyd yn Whitby a Chymdogaeth' 1855 yn rhoi diffiniad o 'Spice Cake' fel; "cacennau te gyda chyrens yn ogystal â chacennau yn fwy cyffredinol, a elwir yn gacennau eirin (plum cakes). Gelwir y cacennau te sy'n llawn menyn a hufen yn 'fat rascals'.

Mae cyfeiriad iddynt yn y ddrama Harri'r IV rhan 2 gan Shakespeare

"FALSTAFF. You make fat rascals, Mistress Doll.
DOLL. I make them! Gluttony and diseases make them: I make them not."

Sydd, yn ôl un sylwad, fwy na thebyg yn ymgais annelwig at jôc ar hen ddefnydd o'r gair 'rascal' sy'n golygu anifail anarferol o denau, ac mae coginio Meistres Doll yn ddigon i wneud y creadur mwyaf tenau yn dew.

Cyfeirir atynt hefyd mewn stori fer yng nghylchgrawn '*Household Words*' gan Charles Dickens "*Your missus is very fond of fat rascals." ... "we used to have cakes something of the same kind at home, when i was a girl, but they culled them singing hinnies".*

Mae rhai yn ei disgrifio fel sgon, eraill fel cacen graig (rock cakes) neu groes rhwng bynsen a sgon. Efallai fod y gwahanol ddisgrifiadau yn cael eu dylanwadu gan y rysáit a'r dull o goginio defnyddir. Mae rhai'n defnyddio llaeth enwyn gyda blawd codi, siwgr, braster a chyrens ac yn eu coginio ar radell, sy'n debyg i'n pice ar y maen. Mae rysáit yn llyfr coginio y W.I. yn 1929 yn dweud am eu rholio i ½ modfedd mewn trwch a'u pobi ond erbyn llyfr coginio 1949 maent wedi tewychu i fodfedd mewn trwch! Fel pob rysáit traddodiadol fe fydd pob cogydd cartref a'i rysáit ei hunain!

Ond yn ôl at Bettys; ar wefan y cwmni honnir fod Jonathan Wild o deulu Bettys wedi ailddarganfod y Turf Cake ac wedi addasu'r rysáit i greu'r Bettys Fat Rascal ym 1983. Y cwmni sydd berchen y nod masnach ar gyfer enw a dyluniad y Fat Rascal ac mae'r dyluniad ag 'wyneb' wedi'i wneud o geirios ac almonau. Cafodd perchennog caffi bach yn Whitby ei wahardd rhag defnyddio'r enw Fat Rascals ac wedi ail enwi ei 'sgons' yn Whitby Rascals maent yn gwerthu'n well nag erioed!

Mae'r rysáit a'r meintiau o'r cynhwysion yn parhau i fod yn gyfrinach ac ar hyn o bryd mae'n bosibl eu harchebu ar lein ond pan fydd eu caffis yn ail agor byddant yn ôl at gynhyrchu tua 8,500 Fat Rascals pob wythnos. Mae unrhyw rai na chaiff eu gwerthu yn cael mynd i siop staff a'r elw'n mynd at elusen neu i lochesi ddigartref.

Mae'n werth rhoi tro ar baratoi rhai; dwi'n awgrymu defnyddio addasiad o rysáit James Martin

150g blawd plaen
150g blawd codi
1 llwy de powdwr codi
65g Trex (neu lard)
65g menyn
90g siwgr mân euraidd
Croen 1 oren ac 1 lemwn wedi gratio
1 llwy de sinamon
½ llwy de nytmeg
150g ffrwyth sych o'ch dewis (defnyddies i gymysgedd o gyrens, syltanas, resins a phil cymysg)
Tua 50ml hufen dwbl (gallwch drio defnyddio llaeth enwyn yn lle hufen)
2 wy
ceirios glace ac almonau heb eu crwyn

- Ffwrn ar 200C/180C ffan /Nwy 6.
- Rhoi papur pobi ar ddau hambwrdd pobi
- Rhidyllu'r ddau flawd a'r powdwr pobi i fowlen, ychwanegu'r sbeisys a'r siwgr.
- Torri'r menyn a'r Trex neu lard yn ddarnau a'u rhwbio i mewn i'r blawd gyda'ch bysedd
- Ychwanegu'r croen oren a lemwn a'r ffrwyth sych.
- Curo'r wyau gyda'r hufen mewn jwg, fe ddylai fod gennych tua 200ml o hylif.
- Ychwanegu digon o'r hylif i wneud toes eithaf llaith - fe ddylech allu siapio'r cacennau gyda dwylo damp.
- Rhannu'r cymysgedd yn ddarnau gwastad* crwn, rhoi ar yr hambyrddau pobi a'u brwsio gyda gweddill y cymysgedd wy a'u haddurno gyda'r ceirios a'r almonau.
- Coginio am 15-20 munud.

Eu gweini'n gynnes gyda menyn, jam a hufen.

(*Mae rysáit James Martin yn dweud am rannu'r cymysgedd yn 6 darn, mae hyn yn gwneud dognau mawr fyddai'n briodol i'w bwyta ar ôl cerdded sawl milltir o rostiroedd Swydd Efrog! Fe wnes i baratoi dau fath ac i mi mae'r rhai llai yn hen ddigon yn enwedig os am eu gweini gyda jam a hufen)

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570
www.menteriaith.cymru

Mae'r gwanwyn wedi ein cyrraedd a dechrau newydd i'n blwyddyn weithredol ar y gorwel. Dros y misoedd diwethaf, mae'r Fenter wedi bod yn cynllunio a pharatoi ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn newid eu statws elusennol ac yn mynd trwy broses drylwyr o geisio am farc safon PQASSO. Mae'n holl weithredoedd arferol yn parhau (dilynwch ni ar facebook Menter iaith Rhondda Cynon Taf neu drydar @MenterIaithRhCT am y wybodaeth ddiweddaraf) a mwy o'n clybiau carco yn ail agor wedi gwyliau'r Pasg. Wrth gamu tua'r dyfodol, mae'r Fenter yn cynnal cyfarfod cyffredinol eithriadol ar nos Iau, Ebrill y 15fed am 6yh dros zoom. Cysylltwch ag einir@menteriaith.cymru os am dderbyn linc neu ymunwch â'r digwyddiad ar facebook. Mae croeso i bawb fynychu ac i fod yn aelodau o'r Fenter.

Er mawr dristwch i ni, rydym yn ffarwelio ag aelod pwysig o'n tîm, Angharad Evans, ein Rheolwr gwasanaethau Plant. Hoffai'r Fenter ddiolch iddi am ei holl waith dros y 3 mlynedd diwethaf a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol. Yn sgil y newidiadau a'r cynllunio, mae cyfleoedd newydd ar gael gan y Fenter. Rydym yn chwilio am ddirprwy newydd, fydd yn gyfrifol am wasanaethau'r Fenter ac mae cyfle am swydd Arweinydd yng Nghlwb Carco Garth Olwg.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 40 75 70
www.menteriaith.cymru
menterrhondda.cynontaf
@menteriaithRhCT
Rhif elusen / charity no: 1053135

DIRPRWY REOLWR MENTER IAITH RhCT

Mae'r Fenter yn datblygu a thyfu ac yn falch o gynnig swydd newydd fydd yn rhan o ddatblygiadau arloesol y dyfodol. Rydym yn chwilio am ddirpwy fydd yn arwain ein timau gwasanaethau plant a ieuenctid, yn sicrhau eu datblygiad strategol, eu harloesedd a'u rhediad llyfn.

Bydd y Dirprwy yn gyfrifol am ddatblygu'r gwasanaethau'n strategol ac am sicrhau eu cynnwys yng nghynlluniau ehangach y Fenter. Mae brwfrydedd at dwf defnydd yr iaith Gymraeg a'r gallu i drafod a chynllunio ar lefel uwch yn allweddol i'r swydd hon.

Cyflog: £21,054 / £26,317 pro rata (Graddfa 22NJC)
Oriau: 28 awr yr wythnos (oriau hyblyg)

Am ymholiadau pellach, neu ffurflen gais cysylltwch â:
Menter Iaith RhCT,
Yr Hen Lyfrgell, 47 Heol Pontypridd
Porth. CF39 9PG
einir@menteriaith.cymru
☎ 01443 407570 /01794 010291
Dyddiau Cau: 26ain o Ebrill

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Arweinydd Clwb Carco Garth Olwg

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain ein staff ymroddgar yng Ngarth Olwg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn Clwb Carco cofrestredig sy'n darparu gofal i blant 3-11 oed
hyd 6yh, 5 noson yr wythnos.
Rhaid i'r Arweinydd llwyddiannus feddu ar gymhwysterau:
CACHE/CCLD Lefel 3 (Gofal) neu uwch, neu gymhwyster cyfatebol.
Lefel 3 Chwarae neu yn fodlon ymrwymo i gymhwyso yn y maes yma fel blaenoriaeth.
Cyflog - £10.50 yr awr
Tâl gwyliau a hyfforddiant yn ychwanegol
Gofal plant ei hunain am ddim
Oriau – 15 awr yr wythnos
Croeso i ddysgwyr i ymgeisio
Am ymholiadau pellach, neu ffurflen gais cysylltwch â:
Menter Iaith RhCT,
Yr Hen Lyfrgell, 47 Heol Pontypridd
Porth. CF39 9PG
carco@menteriaith.cymru ☎ 01443 407570

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Nia Donnelly

Brysia wella!
Dymunwn wellhad buan i Ifan Roberts (mab Dafydd a Lowri), sydd wedi cael llawdriniaeth i dynnu ei pendics yn ddiweddar. Diolch i staff yr ysbyty yn Llantrisant, bu'r llawdriniaeth yn hwylus ac mae disgwyl iddo fod nôl adref ar ôl ychydig o ddyddiau ar y ward.

Cerdded 300,000 o stepiau
Llongyfarchiadau i Siân Jenkins o Feisgyn, sydd erbyn hyn wedi llwyddo cerdded 300,000 o stepiau, gyda'i chŵn bach Twts a Cardi, yn ystod mis Mawrth. Mae Siân y casglu arian i elusen 'Maggie's Centres' sy'n cynnig cymorth i unrhyw un a chanser, a'u teuluoedd.

Ffeindio gweithgaredd newydd yn ystod y cyfnod clo.
I'r rhai ohonoch chi sy'n nabod Mike, y gŵr, byddwch chi'n ymwybodol o'i obsesiwn â rhedeg. Fe ddechreuodd e tua 5 mlynedd yn ôl pan aeth Bethan y ferch i'r brif ysgol. (Wel mae e'n argyfwng canol oed rhatach na phrynu Ferrari!) Fe ymunodd e â chlwb rhedeg 'Ponyclun Road Runners', ac mae e wedi rhedeg llawer iawn o rasys ar hyd y blynyddoedd yn cynnwys Marathon Eryri a Marathon du Medoc yn Ffrainc. Ond mae Mike yn rhedwr cymdeithasol, mae e wedi gwneud nifer o ffrindiau yn y clwb a does dim byd gwell ganddo na gorffen sesiwn rhedeg gyda chyri â sawl un o'r clwb! Felly pan ddaeth y cyfnod clô a'r rheolau am beidio cwrdd â phobl tu allan i'r teulu aeth y treinyrs i gefn y cwtsh dan stâr.

Un peth arall bydd rhai ohonoch yn gwybod am Mike yw ei hoffter am 'gadget', yn enwedig un electronig! Felly dyma fe'n mynd ati i ymchwilio ac wrth gwrs prynu dyfais rhithrealiti (Virtual Reality Headset) er mwyn cadw'i ffitrwydd tra'i fod yn styc yn y tŷ. Y peth mae e wedi mwynhau orau ac sydd nawr yn obsesiwn newydd yw'r sesiynau bocsio. Felly dyma wneud set newydd o ffrindiau gyda'r bobl sy'n cwrdd i wneud y sesiynau yma (bob dydd!). Dros benwythnos Pasg fe fydd e a 6 o'i gyd-focswyr (pobl o America, Awstralia a Phrydain) yn gwneud Boxathon 48 awr i godi arian i'r elusen Mind. Felly pan fydda i'n cysgu'n drwm neu'n bwyta wy Pasg bydd Mike yn y garej yn pwnsio mewn i'r awyr am awr.

Beth bynnag yw'r gweithgaredd sy'n dod a bach o hapusrwydd i'ch bywyd, p'un ai rhedeg, cwrdd â ffrindiau am baned neu canu mewn côr, gobeithio erbyn diwedd 2021 byddwn ni'n gallu gwneud llawer mwy ohonynt.

Mike yn rhith focsio i gadw'n heini

Ysgol Pont-Siôn-Norton

Croeso
Croeso nôl i weddill yr ysgol. Y mae hi'n hyfryd cael holl ddisgylion yr ysgol nôl o'r diwedd.

Gweithdy Anni Llŷn
Diolch yn fawr iawn i Ysgol Garth Olwg am drefnu gweithdy gyda'r gyflwynwraig a'r awdures Anni Llŷn i griw bach o flwyddyn 3 a 4. Roedden nhw wrth eu boddau yn dysgu a chael hwyl!!

Parti Pasg
Diolch i ffrindiau Pont-Siôn-Norton am drefnu'r Parti Pasg i ddathlu diwedd y tymor. Roedd pawb wedi mwynhau'r 'treats' a'r bagiau Pasg!

Gweithdy Anni LLŷn

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 15fed o Fawrth 2021 daeth Zoom ac anrheg arall i ni wrth i Arwyn Tomos Jones o Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd ddod i siarad â ni am COVID-19: Dysgu gwersi gan y Cnaf Nano. Dechreuodd Arwyn trwy ddangos lledaeniad brawychus y feirws fel dangosir gan fapiau Prifysgol Johns Hopkins yn Baltimore. Yna cawsom ychydig o hanes teuluol y feirws yma. Bathwyd y term Coronavirus yn 1968 ar ôl i'r lluniau cyntaf o'r feirws gael eu tynnu gan ficrosgop electron gan ddatgelu siâp coron.

Yna cawsom esboniad o sut mae ein celloedd yn gweithio, yn benodol sut mae celloedd yn cynhyrchu protinau trwy ddefnyddio cemegyn tebyg i DNA o'r enw RNA, ac yn benodol yr RNA negeseuol a elwir yn mRNA. Esboniodd Arwyn fel gall diffygion mewn ychydig iawn o'r protinau a gynhyrchir yn y gell achosi clefydau fel Ffibrosis Cystic. Er mwyn gwella clefydau fel hyn, mae'n rhaid danfon sylweddau i mewn i gnewyllun y gell i annog y gell i gynhyrchu y protinau cywir, gelwir hyn yn therapi genynnol ac mae wedi bod yn destun sawl astudiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

A dyma ni yn dod 'nôl i Covid-19 a'r brechlynnau. Mae brechlyn Pfizer ac AstraZeneca yn cludo RNA negeseuol i mewn i rai o'n celloedd ac yn dysgu'r gell i gynhyrchu protin sy'n rhan o'r feirws Covid-19. Nid yw'r feirws cyfan yn cael ei gynhyrchu, ond mae sustem imiwnedd y corff yn deffro i'r protin yma, ac yn ei ddifa, a bydd yr un peth yn digwydd i'r feirws gan fod y sustem imiwn nawr yn ei adnabod. Gorffennodd Arwyn gan ragweld bydd yr holl ymchwil a thechnegau newydd rydym yn datblygu i ymladd Covid-19 yn caniatâi i ni drin nifer o glefydau, gan gynnwys cancr, mewn ffyrdd mwy effeithiol. Dyma ddysgu gwersi gwerthfawr can y cnaf nano arbennig hwn.

Rhys Morris

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon: (rhithiol oni noder yn wahanol)
Mis Ebrill 2021:
4 Ebrill - Oedfa Gymun ar Sul y Pasg dan ofal Delwyn Sïon
11 Ebrill – Oedfa dan ofal Wynford Ellis Owen
18 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
25 Ebrill – Oedfa dan ofal Emlyn Davies
Mis Mai 2021:
2 Mai - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sïon

---oooOOOooo---

Mewn cwis ar Zoom y dydd o'r blaen gofynnodd y cwisfeistri "faint o emynau yn 'Caneuon Ffydd' sydd â phenillion yn dechrau gyda'r gair '*Heddiw*'?"
Cewch chwilio am yr ateb eich hunain!

Ond mi rannaf â chwi na ddewch o hyd i'r un emyn ynddo sydd â phennill yn dechrau gyda 'ddoe' nac 'yfory'!

A dyna awgrym o ddefnydd amgen wedi ei ddarganfod i'n llyfr emynau ni yn y cyfnod clo presennol tra pery'r gwaharddiad ar gyd-ganu mewn oedfa.

Hwyrach yn wir y dylid trefnu cwis yn lle pregeth ambell fore Sul, gyda'r cyfan o'r atebion i'w darganfod o fewn ei gloriau!

A gallai hynny yn ei dro, drwy gyfrwng y dechnoleg yr ydym i gyd yn ei defnyddio'n fwyfwy y dyddiau yma, arwain at gystadlaethau rhwng y gwahanol gapeli, a rhwng y gwahanol enwadau, gan hwyrach gynnig tlws, megis "Y Goron Driphlyg" neu'r "Gamp Lawn" yn flynyddol i ymgiprys amdani.

Pwy sy'n gêm tybed?

Ac o daro ar "Caneuon Ffydd", fe sylwch fod bellach ugain mlynedd ers cyhoeddi'r argraffiad cyntaf ohono yn Ionawr 2001.

Mae gennyf gof o'r trafod a fu bryd hynny am y cynnwys ac yn fwy penodol am yr emynau oedd wedi eu gadael allan o'r gyfrol newydd yma!

O droi ato, ac at bwrpas yr erthygl hon, bûm yn chwilio am yr emyn cyfarwydd "*Rwy'n canu fel cana'r aderyn*", ond yn ofer - nid yw ynddo.

Dyma emyn y buom fel plant yn yr Ysgol Sul ac yn yr Ysgol ddyddiol yn ei chanu mewn oedfaon a gwasanaethau am flynyddoedd lawer.

O edrych ar y we, fe ddarganfyddais bod y porwr yn fy arwain at eiriau'r emyn (yn un man yn cyfeirio ati fel "hwiangerdd draddodiadol"?), gan William Richards (Alfa) 1875 – 1931.

Bûm yn craffu wedyn i ddod i wybod mwy am yr awdur, gan chwilio ar wefan y "Bywgraffiadur", ond yn ofer.

O'r diwedd dyma ganfod y cofnod canlynol ar wefan arall, oedd yn cynnwys llun o'i fedd:-

"*Bedd crand y Parchedig William 'Alfa' Richards (1875-1931), bardd ac emynydd, ym mynwent Capel Hermon, Brynaman. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth 'Blodau'r Groes (1907) a 'Clychau'r Wawr (1910) ond mae e'n cael ei gofio orau fel awdur yr emyn poblogaidd hwnnw i blant* ***'Rwy'n canu fel cana'r aderyn'***."

Dwi'n siŵr y bydd sawl un ohonoch â llawer mwy o wybodaeth amdano na'r hyn y deuthum i ar ei draws yn fy ymchwil, gan gynnwys perthnasedd yr "Alfa"!

(Petawn wedi edrych yng nghynt yn fy nghopi o "Y Caniedydd", byddwn wedi darganfod yr emyn yn rhif 905 yn "Adran yr Ifanc" yng nghefn y gyfrol, a phetawn wedi cael cip ar yr "Atodiad" i "Llyfr Emynau a Thonau" y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd a gyhoeddwyd yn 1985, 'roedd yno yn rhif 964 – y naill a'r llall yn cadarnhau mai dyma'r unig emyn o waith yr awdur a gynhwyswyd ganddynt.)

Ond pam y diddordeb yn yr emyn yn y lle cyntaf – wel, dod ar draws erthygl yn ddiweddar yn son am aderyn prin yn Awstralia oedd wedi dechrau colli ei gân. Go brin fod yna enw Cymraeg ar y "*Regent Honeyeater*", gan mai de-ddwyrain Awstralia yw eu cynefin, ac mwyach dim ond rhyw 300 ohonynt sydd ar ôl.

A'r lleihad yma yn eu nifer sy'n golygu nad ydynt mwyach yn debygol o glywed, ac felly dysgu, cân eu tylwyth.
Yn wir cymaint eu prinder, a'r ffaith fod tua 90% o'u cynefin wedi diflannu, mae'r aderyn bellach yn adleisio cymysgwch o nodau cân adar eraill, oherwydd, yn ôl y gwybodusion, mae adar yn dysgu eu cân yn union fel yr ydym ni yn ein babandod yn dysgu siarad, gan adrodd ac ail-adrodd yr hyn a glywant.

Mae gwaith cadwraethol yn cael ei wneud i geisio diogelu cân yr aderyn, gan ddefnyddio recordiad o'u trydar yn y gwyllt i ddysgu'r adar rheini sy'n gaeth fel rhan o'r rhaglen, cyn iddynt hwythau yn eu tro gael eu gollwng yn rhydd.

Byddai colli'r gân yn niweidiol i barhad y rhywogaeth, oherwydd y pryder y byddai'r iâr, heb adnabyddiaeth o'r nodau, hefyd yn gwrthod paru gyda'r ceiliog.

Mae adnod yn Llyfr Numeri 10:7, yn fersiwn Beibl.net yn dweud fel a ganlyn: "*Ond i alw pawb at ei gilydd, rhaid canu nodau gwahanol*".

"Galw pawb at ei gilydd" fydd ein camp ninnau fel eglwys pan ddaw'r cyfnod clo i ben, a phryd hynny bydd yn ddyletswydd arnom ni i beidio â cholli gafael ar ein cân ninnau.

Ond bydd yr un mor berthnasol i ni ddod yn gyfarwydd â "chanu (ambell) i nodyn gwahanol" gan dderbyn dulliau eraill o greu, cynnal a chyflwyno ein haddoliad o wythnos i wythnos.

Cwis unrhyw un?

---oooOOOooo---

Diolch unwaith eto i'r holl gymwynaswyr sydd, yn ystod y mis a aeth heibio, wedi gofalu am ein hoedfaon a'r Ysgol Sul ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Ysgol Creigiau

Diwrnod Cenedlaethol o Fyfyrdod
Ddydd Mawrth, 23ain Mawrth, cawsom funud o dawelwch yn yr Ysgol am 12yp. Cymeron ni ran mewn Diwrnod Cenedlaethol o Fyfyrdod i nodi union flwyddyn ers i bobl gael eu cynghori i aros adref wrth i gyfyngiadau llym gael eu cyflwyno i'r wlad. Yr elusen Marie Curie drefnodd y diwrnod hwn o feddwl a myfyrdod gan wahodd pobl i ddod ynghyd i gofio'r rhai a fu farw yn ystod y pandemig ac i ddiolch am eu bywydau, ac i gefnogi'r rhai sydd mewn profedigaeth. Roedd hefyd yn ddiwrnod o obaith, lle edrychon ni ymlaen gyda'n gilydd tuag at ddyfodol y tu hwnt i'r pandemig. Creodd llawer o ddosbarthiadau waith crefft hyfryd i nodi'r diwrnod arbennig hwn.

Gwaith Celf hyfryd Dosbarth 2

Croeso Nôl
Mae hi wedi bod yn hyfryd croesawu'r disgyblion a'u teuluoedd yn ôl i'r ysgol yn ddiweddar. Diolch i'n holl deuluoedd am eu sylwadau cadarnhaol, eu geiriau caredig a'u cefnogaeth dros y misoedd diwethaf

Casglu Sbwriel
Ar ôl dychwelyd i'r ysgol bu disgyblion Dosbarth 6 yn brysur iawn yn casglu sbwriel oddi ar gae'r ysgol. Roeddent wedi synnu gweld faint o sbwriel a gasglwyd. Diolch Dosbarth 6 - mae ein hysgol yn edrych cymaint yn daclusach a gall y disgyblion nawr chwarae yn ddiogel ar y cae pan fydd yn ddigon sych!

Gweithdai / Cyflwyniadau Rhithwir
Yn ddiweddar mae llawer o ddosbarthiadau wedi cymryd rhan mewn rhith-weithdai a chyflwyniadau.

Criw Hanfodol
Cymerodd disgyblion Blwyddyn 6 ran yn y gweithdy Criw Hanfodol blynyddol. Dull aml-asiantaeth yw Criw Hanfodol o drosglwyddo negeseuon diogelwch i ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddynt symud ymlaen i addysg uwchradd.

Gweithdy Harri Tudur
Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 4 gymryd rhan mewn gweithdy Harri Tudur.

Dosbarth 2 ar Ddiwrnod o Fyfyrdod

Diwrnod Trwynau Coch

Dosbarth Derbyn

Dosbarth 1

Dosbarth 5

Dosbarth 6

Dosbarth 3

Dosbarth 4

Diwrnod Trwynau Coch
Cawsom ddiwrnod lliwgar a llachar yn dathlu Diwrnod Trwynau Coch. Cawsom lawer o hwyl a buon ni'n chwerthin llawer ar jôcs pawb! Diolch i'n teuluoedd am eu cyfraniadau i'r elusen – casglon ni £500.

Gweithdai Celtaidd a Rhufeinig
Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 3 Weithdai Celtaidd a Rhufeinig gan Adran Addysg Sain Ffagan.

Wythnos Genedlaethol Iaith Arwyddo 2021
Er mwyn cefnogi Wythnos Genedlaethol Iaith Arwyddo 2021 fe gymerodd llawer o ddosbarthiadau ran mewn gwers iaith arwyddo ar-lein. Treuliodd y disgyblion awr yn dysgu iaith arwyddo sylfaenol a gorffennodd y wers gyda phawb yn arwyddo 'What a Wonderful World' gan Louis Armstrong.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau i Siôn, mab Cliff ac Eifiona Hewitt sydd wedi dechrau swydd newydd yn gyfrifydd i gwmni sydd yn dylunio cyfleusterau moethus i longau pleser, awyrennau a gwestai. Treuliodd Siôn gyfnod gyda Cliff ac Eifiona yn Efail Isaf yn ystod y pandemig, ond mae'n falch i fod nôl yn ei gynefin yn Llundain erbyn hyn.

Ffordd ar gau
Mae Heol y Mynydd, sef y ffordd sy'n arwain o'r Efail Isaf i Bentyrch wedi bod ar gau am bythefnos tra bod gwaith cynnal a chadw yn digwydd.

Côr yr Einion
Mae'n anodd credu fod blwyddyn gron wedi mynd heibio ers i aelodau Côr yr Einion gael eu hymarfer diwethaf. Roedd yn braf cael cyfarchion oddi wrth Siân, ein harweinydd flwyddyn union ers i ni fod yn canu yn y festri. Yn ei neges roedd Siân yn gobeithio fod yr aelodau'n cadw'n iach. Soniodd y byddai'n eistedd wrth y piano am 8 o'r gloch ac yn canu "O Nefol Addfwyn Oen", un o'r darnau cyntaf i ni ddysgu fel Côr, ac yn rhyfedd iawn y gân olaf i ni ganu yn yr ymarfer olaf llynedd. Gwahoddodd yr aelodau i ymuno â hi i ganu'r gân am 8 o'r gloch.

Diolch Siân am dy gyfarchion a chadw dithau'n iach ac yn ddiogel.

Y TABERNACL
Cyfarchion hwyr i Dilwen Davies oddi wrth aelodau'r Tabernacl ar ddathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Mawrth.

Gwellhad Buan
Braf clywed fod Rhiannon Humphreys yn well ac wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn ystod mis Mawrth.

Mae cyfnod triniaeth Carol Williams, Pentyrch wedi dod i ben. Dymunwn wellhad buan a llwyr i Carol ac i Rhiannon.

Dathlu'r Pasg
Bwriad Gweithgor Cymorth Cymdeithasol Y Tabernacl eleni fydd dathlu'r Pasg drwy gasglu danteithion, yn cynnwys Wyau Pasg a nwyddau hylendid ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru ar elusen POBL. Bydd y capel ar agor rhwng 10.30 a 11.30 fore Iau Mawrth 25ain ac Ebrill 1af i dderbyn y rhoddion. Bydd cyfle i gefnogi'r Banc Bwyd hefyd drwy gyflwyno siec neu daliad Banc i'r Trysorydd.

Clirio Rhandiroedd y Tabernacl
Mae'r criw gweithgar fore Iau wedi bod wrthi'n brysur eto yn clirio'r mieri a'r drain yn ardal y rhandiroedd gerllaw'r fynwent. Cafwyd coelcerth i losgi'r cyfan a sylweddolwyd pa mor eang oedd y llecyn yma ar ôl gwaredu'r holl dyfiant. Hwyrach fod cyfle i ddatblygu'r ardal yn ardd gymunedol i aelodau'r Tabernacl a thrigolion y pentref. Rhaid aros i weld sut bydd y syniad yn datblygu.

Cofio Cymdeithas Pontypridd
Cafwyd nodyn gan Wynne Davies, Ceulan, Meisgyn yn cofio rhai yn lluniau rhifyn diwethaf - Lluniau tud 9:(i) rhes gefn chwith Ifan a Sian Dalis Davies. 4ydd o'r dde: Richard Lewis. (ii) chwith rhes flaen: Betsi Griffiths.

Hefyd cofion hapus am Miss Rosser, Gartholwg ar dudalen 13 rhifyn mis Mawrth.

Cofio Teulu Dai Edwards

Yn ei ysgrif hynod ddiddorol ar y diweddar Dai Edwards, ceir gwahoddiad gan Rowland Wynne am "unrhyw wybodaeth am Dai Edwards a'i deulu". Fel David (nid Dai) yr adwaenwn i ef. Ymadawodd ag Ysgol Ramadeg y Bechgyn Pontypridd am Brifysgol Manceinion yn 1945 a minnau'n cyrraedd yr un ysgol yn 1946. Felly ni chroesodd ein llwybrau addysgol o gwbl. Er hynny, daeth David Edwards yn batrwm o ddisgybl i'w efelychu ym marn fy rhieni.

Gwyddwn yn dda am ei ddisgleirdeb academaidd am fod ei dad, William (Bill) Edwards a nhad, John Idris Edwards, yn gyfeillion, yn gyd-athrawon a chyd-deithwyr beunyddiol ar y bws rhwng Ton-teg a Phentre'r Eglwys ac Ysgol Uwchradd Fodern y Beddau (Ysgol Bryn Celynnog bellach). Ac un diwrnod cofiaf ymweld a Mr Edwards yn ei dŷ gwydr ffrwythlon yn ei ardd gefn yn Nhonteg, pan roddodd anrheg o botyn llawn "cactii" bach i mi, planhigion na welais eu tebyg erioed. Ac fe'm siarsiodd i beidio a'u gorddyfrio!

Cyfeiria Rowland yn arbennig at "ddoniau ymarferol ei dad" ac i Dai "fwynhau ymdrin a'i set Meccano ac adeiladu modelau" ac "ymddiddori mewn radio ac adeiladu ei set ei hun a dysgu ychydig electroneg".

Bu'r ychydig ffeithiau hyn yn help i mi ddatrys cryn ddirgelwch personol. Un Nadolig, tua 1947, cafodd Arwel fy mrawd a minnau, anrheg mewn bocs pren a wnaed yn amlwg gan saer crefftus ac oddi mewn iddo roedd taflunydd (projector) trydan i ddangos ffilmiau symudol di-sain a sawl ril o ffilm du a gwyn a barai ychydig funudau yr un. Nid oedd teledu mewn bod ond cawsom gryn hwyl yn trin y peiriant hwn gan ryfeddu at y lluniau wedi eu taflu ar lian gwyn ar wal y lolfa. Anrhegion digon confensiynol a gaem bob bore Nadolig ond roedd cael anrheg mor annisgwyl yn groes i arfer ein rhieni.

Ymhen rhai blynyddoedd wedyn clywsom mai Mr Bill Edwards a'i rhoddodd i nhad i'w drosglwyddo i ni. Ac o ddarllen ysgrif Rowland mae'n ddigon teg casglu mai un o beiriannau technolegol diangen Dai oedd y taflunydd ac yntau bellach, ym Manceinion, yn gweithio ar ddyfeisiadau a fyddai'n trawsnewid ein byd.

Fodd bynnag, ni chefais y fraint o gyfarfod David erioed. Ond diolch o galon i Rowland am roddi sylw mor haeddiannol i un o frodorion y plwyf ac amlinellu ei gyfraniad eithriadol.

D. Gareth Edwards

Diolch i D.Gareth Edwards am ei rodd caredig i gefnogi Tafod Elái.

Y Cymro sy'n ceisio 'deall y bydysawd' yn CERN

Un o westeion rhaglen radio ddyddiol 'Tros Ginio' ganol mis Mawrth oedd Rhodri Jones, uwch swyddog yn sefydliad ymchwil CERN ar gyrion Genefa. Bydd trigolion Pentyrch a'r cylch yn nabod ei fam - Elenid Jones - a fu'n byw am flynyddoedd yn y pentre cyn symud yn ddiweddar i Bontcanna. Daeth y teulu i Bentyrch ddiwedd 1989 o Gaergrawnt yn sgil marwolaeth anhymig gŵr Elenid, y gwyddonydd disglair Dyfrig Jones. Mynychodd chwaer Rhodri, Heledd, a'i ddau frawd, Dyfan ac Edryd, ysgol Llanhari. Ond roedd Rhodri erbyn hynny yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Abertawe.

Sbardun y cyfweliad oedd dyrchafiad Rhodri i fwrdd rheolwyr CERN ag yntau yn bennaeth Adran Belydrau y ganolfan - congylfaen yr holl waith ymchwil sy'n cael ei gynnal yno. Mae'r cyfweliad wedi ymddangos ar wefan Cymru Fyw y BBC a dyma grynodeb ohono -

Gwyddonydd o Gaerfyrddin, Dr Rhodri Jones, yw pennaeth newydd yr Adran Belydrau yn CERN, y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Niwclear draw yn y Swistir.

Mae ganddo gyfrifoldeb dros gannoedd o weithwyr, peiriannau sydd yn gilomedrau o hyd a gronynnau sy'n teithio bron ar gyflymder golau.

Ar raglen Dros Ginio ar BBC Radio Cymru, Jennifer Jones fu'n holi beth yn union maen nhw'n ceisio ei ddysgu yn CERN.

"Mae'r nod ei hunan bach yn uchelgeisiol," meddai Rhodri, "achos deall y bydysawd yw'r nod.

"Beth mae hwnna'n ei feddwl yw edrych i weld beth mae mater wedi cael ei greu mas o, a trio egluro rhai o'r pethau ni'n gweld yn ein byd o'n hamgylch ni.

"Dim ond 4% o'r mater 'yn ni'n gallu deall, a dweud y gwir. Mae gweddill y mater yn ein bydysawd ni yn egni tywyll neu'n fater tywyll - a ni'n galw fe'n dywyll achos bod ni ddim yn siŵr iawn beth yw e."

Yn ffodus i Rhodri a'i gydweithwyr draw ar y ffin rhwng Swistir a Ffrainc, mae ganddyn nhw gymorth peiriant mwyaf y byd i geisio dod o hyd i'r atebion i'w cwestiynau, sef y Large Hadron Collider.

"Mae'r pelydrau (particle beams) yn mynd rownd y twnnel hyn 11,000 o weithiau yr eiliad," eglura Rhodri, "achos maen nhw'n teithio bron ar gyflymder golau. Dwy belydr sydd gyda ni - un sy'n mynd rownd un ffordd, ac un y ffordd arall.

"Mewn pedwar man, 'yn ni'n gwrthdaro nhw yn erbyn ei gilydd, a mas o'r ynni sy'n cael ei greu fel'na, ni'n edrych wedyn i weld yn union beth mae'r gronynnau hyn wedi cael eu 'neud mas o."

Ym Mhrifysgol Abertawe yr astudiodd Rhodri, ac mae yna berthynas glos rhwng y brifysgol a CERN, meddai, gyda nifer o raddedigion Abertawe yn symud i weithio draw yn CERN, gan gynnwys Lyn Evans, y gŵr o Aberdâr a oedd yn arweinydd prosiect y Large Hadron Collider.

"Mewn lasers 'nes i'n noethuriaeth - felly do'n i ddim yn gwybod dim byd am gyflymyddion ar y pryd. Nes i mi symud draw fan hyn yn 1996 i wneud post-doc, i wneud ymchwil mewn sut i adeiladu y Large Hadron Collider.

"Fi'n cofio mynd mas ar yr awyren, a'n gorfod darllen lan i weld sut yn union oedd gwrthdaro'n digwydd yn un o'r cyflymyddion hyn cyn cael y cyfweliad i allu dod 'ma."

Chwarter canrif yn ddiweddarach, a Rhodri sydd yn gyfrifol am adran o 600 o staff sydd yn rhedeg holl gyflymyddion CERN, sydd yn cynnwys y Large Hadron Collider a nifer o rai llai.

Er mai 2,500 o staff llawn amser sy'n gweithio i CERN, ar unrhyw adeg gall hyd at 10,000 o bobl fod yn gweithio ar y safle, yn cynnal arbrofion gwahanol ar y pelydrau sydd yn cael eu creu gan y peiriannau enfawr.

Y broblem sydd wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl Rhodri, yw fod tramorwyr wedi methu dod draw i CERN i gynnal yr arbrofion, oherwydd cyfyngiadau Covid.

Gyda'r gobaith y bydd cyfyngiadau yn cael eu codi yn fuan, mae Rhodri yn egluro mai'r her nesaf yw i gael y Large Hadron Collider yn gweithio eto, am dair blynedd o waith.

"Ac yn y dyfodol pellach, ni'n edrych ar beiriannau sydd yn mynd i fod lan i 100km o seis - hwnna yw'r prosiect nesa, sef edrych ar sut i wneud peiriant o'r fath faint!

"Mae'n anodd iawn meddwl am rywle gwell i weithio na CERN, os ti yn y maes hyn."

https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/56421641

PAPURAU BRO

Un man canolog ar gyfer holl Bapurau Bro Cymraeg

Yn mis Mawrth lansiwyd gwefan newydd ar gyfer yr holl Bapurau Bro Cymraeg www.papuraubro.cymru. Bwriad y wefan yw creu un man canolog lle gall ddarllenwyr hen a newydd ddarganfod gwybodaeth am yr holl Bapurau Bro Cymraeg.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswllt a mwy ar gyfer pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w cymunedau. Gallwch ddefnyddio map interactif y wefan i ddarganfod pa bapur bro sydd Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr y Papurau Bro rannu adnoddau a chyfathrebu.

Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru [MIC]: "Ry'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hwn yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen gyda'i gilydd a datblygu mewn cyfnod lle mae presenoldeb ddigidol mor bwysig."

Mae perthynas adeiladol wedi ei greu rhwng Mentrau Iaith Cymru â Bro360, cynllun sy'n darparu gwefannau bro i gymunedau. Trefnwyd hyfforddiant ar y cyd gan MIC a Bro360 ar gyfer gwirfoddolwyr y Papurau Bro yn ystod mis Mawrth.

Dywed Lowri Jones ar ran Bro360: "Ry'n ni'n falch bod Bro360 wedi gallu helpu papurau bro i barhau i gyhoeddi yn ystod cyfnod heriol Covid."

Ysgol Tonyrefail

Y Cyfrifiad

Mae disgyblion yr adran iau wedi bod yn gwneud cywaith ar y cyfrifiad yn ddiweddar. Roeddynt wedi edrych yn arbennig ar ddata y siaradwyr Cymraeg yn siroedd Cymru dros y degawdau diwethaf. Testun diddorol iawn.

Diwrnod Trwynau Coch

Roedd yr ysgol yn lliwgar iawn ar ddydd Gwener diwrnod trwynau coch - daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel eu harwyr / archarwyr neu gyda gwalltiau gwirion. Roedd gan y staff walltiau diddorol iawn hefyd! Diolch i bawb am gymryd rhan ac fe gasglwyd £183 tuag at yr apêl.

Cywion Bach

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen amser wrth eu boddau yn dilyn hynt a helynt ein cywion bach wrth iddynt ddeor yn yr ysgol. Roedd y profiad wedi cyfoethogi gwaith y tymor hwn ar gylch bywyd anifeiliaid.

Dathlu Dydd Gwŷl Dewi

Roedd dathliadau Dydd Gwŷl Dewi yn wahanol iawn i'r arfer eleni. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen yn bresennol yn yr ysgol ac roeddynt wedi cynnal cyngherddau ac eisteddfodau yn eu swigod dosbarth.

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Eisteddfod Ysgol

Roedd ein heisteddfod ysgol eleni ychydig yn wahanol i'r arfer. Roedd hi'n eisteddfod rithiol ac fe gawsom gymaint o hwyl yn gweld ein disgyblion dawnus yn cystadlu'n frwd. Gwelsom nifer yn canu a'n dawnsio ac roedd sawl jôc arbennig. Adroddodd rhai gerddi hyfryd. Diolch i'r Criw Cymreig am feirniadu pob cystadleuaeth a chyhoeddi'r enillwyr.

Diwrnod y llyfr

Er mai plant y Cyfnod Sylfaen yn unig oedd yn bresennol yn yr ysgol ar ddiwrnod y llyfr, cawsom ddiwrnod gwych yn dathlu. Gwisgodd pawb fel cymeriad o lyfr a buom yn cynnal gweithgareddau yn ymwneud â llyfrau a llenyddiaeth am wythnos gyfan. Creodd nifer o ddisgyblion o'r adran iau straeon yn addas i blant ieuengaf yr ysgol a darllenwyd rhai o'r straeon hyn i blant y Cyfnod Sylfaen. Roedden nhw wrth eu boddau. Mae awduron campus yn ein hysgol.

Dydd y Trwynau Coch

Diwrnod arall yn llawn cyffro oedd Dydd y Trwynau Coch. Ni fyddwn yn anghofio'r holl ddillad lliwgar a'r trwynau gwych a grëwyd gan y disgyblion. Diolch i'r Senedd am drefnu'r diwrnod ac am arddangos y jôcs gorau o amgylch yr ysgol. Bu pawb yn hael iawn ar y dudalen Go Fund Me a chasglwyd bron i £350. Diolch o galon.

Croesawu darpar athrawon

Hoffem estyn croeso cynnes i dri myfyriwr sy'n astudio'r cwrs TAR a ddechreuodd yn yr ysgol yng nghanol mis Mawrth. Mae Mr Jones yn nosbarth Sali Mali, Miss Melhuish yn nosbarth Elin Fflur a Mr Roberts yn nosbarth Pwyll a Rhiannon.

Roedd yn hyfryd eu gweld yn eu gwisgoedd Cymreig. Yn anffodus roedd yn rhaid i ddisgyblion yr adran iau ddathlu yn rhithiol eleni – braf oedd gweld llu o dalentau amrywiol yn cael eu harddangos fel rhan o waith 'Talentau Ton'

Diwrnod y Llyfr

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen i gyd fynd â Diwrnod y Llyfr. Braf oedd gweld y plant yn dathlu eu hoff lyfrau. Bu'r adran iau yn dathlu'n rhithiol eleni.

Diwrnod Syndrom Down y Byd

I godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Syndrom Down y Byd daeth yr holl ddisgyblion i'r ysgol yn gwisgo hosan wahanol ar bob troed.

Mawrth 23ain

Fel arwydd o barch ac i gofio am y flwyddyn a aeth heibio ers Mawrth 23ain 2020 - addurnwyd yr ysgol gyda chalonnau melyn.

RHWNG TEIFI, DYFI A'R DON

Cyhoeddiad Barddas
Golygwyd gan
Idris Reynolds
Lluniau gan
Iestyn Hughes

Mae harddwch sir Ceredigion wedi ysbrydoli nifer o feirdd ar hyd y blynyddoedd ac yn y gyfrol newydd hon ceir cerddi gan feirdd amrywiol sy'n canu am y sir ei hun: am leoedd, adeiladau a phobl sy'n creu'r sir hynod hon mor gyfoethog ei diwylliant. Mae'r gyfrol yn cynnwys lleisiau amrywiaeth hynod o feirdd – o unigolion sydd wedi byw yn y sir erioed i fyfyrwyr a beirdd sydd wedi mudo i Geredigion ac ymgartrefu mewn gwahanol rannau o'r sir. Canolbwyntir yn bennaf ar gerddi diweddar ond ceir hefyd ambell i hen ffefryn – oll yn gerddi gan feirdd sy'n nodedig am eu cyswllt â Cheredigion. Dyma gyfrol clawr caled sy'n dathlu diwylliant a harddwch y sir.

Meddai Idris Reynolds: 'Clywais ddywedyd mai Duw ar y trydydd dydd a greodd y dirwedd ond fod ôl llaw dyn ar y tirlun. Yn y gyfrol hon cawn gipluniau personol o dir a daear Ceredigion, boed dirwedd neu dirlun, trwy lygaid ei beirdd. I gyd-fynd â'r farddoniaeth ceir ffotograffau o'r sir gan Iestyn Hughes ac mae'r cwbl wedi ei osod yn gelfydd i greu cyfrol apelgar iawn yn weledol.

Mae Idris Reynolds yn Brifardd ac yn fardd toreithiog – ac yn awdur nodedig hefyd. Enillodd ei gyfrol *Darn o'r Haul yn Rhywle, Cofio Dic* wobr Llyfr y flwyddyn yn 2017. Ef oedd enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanrwst, 1989, a hefyd Eisteddfod Aberystwyth yn 1992. Mae'n byw ym mhentref Brynhoffnant, Ceredigion, gyda'i wraig Elsie.

Mae'r Ffotograffydd Iestyn Hughes yn dod o Fôn yn wreiddiol ond wedi ymgartrefu yng Ngheredigion ers blynyddoedd – yn Bow Street ger Aberystwyth. Tynnu lluniau o dirluniau a phortreadau o bobl yw ei brif faes arbenigol, ac yn 2016 fe gyhoeddodd y gyfrol ddwyieithog llawn lluniau am y sir: *Ceredigion – wrth fy Nhraed* (Gwasg Gomer).

Cyhoeddiadau Barddas - £12.95 / clawr caled / lliw llawn



Gostwng cyflymder i 20mya.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn y broses o gyflwyno terfyn cyflymder is o 20mya mewn 22 o leoliadau cymunedol, gan gynnwys mewn mannau sy'n agos i ysgolion. Mae hyn er mwyn creu amgylchedd mwy diogel lle does dim llawer o le i gadw pellter cymdeithasol.

Sicrhawyd arian grant COVID-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer dau gynllun arbrofol tebyg mewn cymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cyntaf yn gweld parthau 20mya yn cael eu cyflwyno ar strydoedd o amgylch 16 ysgol.

Bydd yr ail gynllun yn cyflwyno'r un mesur mewn chwe chanol tref neu bentref, lle gwelwyd rhagor o gerdded a beicio yn ystod y pandemig.

Mae'r ddau gynllun yn cael eu gweithredu o dan orchymyn traffig arbrofol 18 mis, gyda'r bwriad o'u gwneud yn barhaol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gwblhau'r arwyddion ar draws pob un lleoliad, a bydd yn croesawu adborth am y newidiadau yn y chwe mis cyntaf wedi iddyn nhw ddod i rym.

Cyhoeddwyd rhestr gynhwysfawr o'r holl strydoedd sy'n cael eu heffeithio ar wefan y Cyngor, yn www.rctcbc.gov.uk/traffig. Mae'r rhestr isod yn cynnwys crynodeb o'r ysgolion/ cymunedau yn Nhaf Elái.

Ysgol Gynradd Coed-y-lan, Pontypridd, Ysgol Gynradd Dolau, Llanharan, Ysgol Ffynnon Taf, Ffynnon Taf, Ysgol Gynradd Gwauncelyn, Ton-teg, Ysgol Gynradd Llanharan, Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, Llanilltud Faerdref, Ysgol Gynradd Gymraeg Llanhari.
Canol Trefi/Pentrefi - Meisgyn, Pont-y-clun a Tonysguboriau

Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn ehangu cynlluniau 20mya ac maent wedi cyhoeddi bwriad i osod dwy Groesffordd Cerddwyr ar Heol Creigiau yng nghanol y pentref.

Achub Meddygfa Pentyrch

Parhau mae'r frwydr i atal y Bwrdd Iechyd lleol rhag cau'r Feddygfa ym Mhentyrch. Bwriad y Bwrdd Iechyd yw symud y feddygfa i adeilad newydd yn Rhydlafar ac yn ogystal bydd Fferyllfa'r pentref yn cau.

Sefydlwyd meddygfa ym Mhentyrch dros 40 mlynedd yn ôl ac mae'n darparu gwasanaeth i dros 2000 o bobl. Gosodwyd cabanau dros dro ym maes parcio Neuadd y Pentref i ddarparu'r gwasanaeth nes bod adeilad newydd yn cael ei godi. Ond chwalwyd gobeithion y pentrefwyr mis Hydref diwethaf pan gyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer meddygfa Rhydlafar gyda'r bwriad i symud trigolion Pentyrch i'r darpariaeth newydd sydd dwy filltir i lawr lôn gul iawn o'r pentref.

Mae pentrefwyr yn galw ar y Gweinidog Iechyd i ymgynghori ar y cynlluniau ac i ystyried darparu gwasanaeth lleol yn ôl addewid a wnaed i ddod a'r gwasanaeth iechyd yn agosach at drigolion.

Y PASG 2021

Wrth feddwl am y Pasg, beth sy'n cosi'r meddwl?

Ei Ystyr wrth gwrs, yna'r cymanfaoedd, a wŷe.

Ond cofiwch, hwn o'dd dechre'r Flwyddyn Newydd yng nghalendr y Rhufeinied, yn dechre 'da Mish Mawrth, sef blwyddyn o ddeg mish .Pan newitiwyd y calendr i'r Julian, ac yna'r Gregorian yn yr unfed- ganrif –ar- bymtheg, o achos bod y Julian wedi 'i selio ar y lleuad, a'r Gregorian ar yr haul a'r tymhorau, o'n nhw 'n un-ar-ddeg diwrnod o fla'n amser.

Felly, dyma ollwng yr un-ar-ddeg, ac fe a'th Chwefror yr ail yn Chwefror y trydydd-ar-ddeg dros nos. Nawr, chi 'di meddwl erio'd pam fod y Flwyddyn Dreth yn mynd o Eprill i Eprill? Wel, o achos y calendr Rhufeinig ma' hwnnw, o nhw yn talu trethu ym mish Mawrth, ond yn 1750, pan droion ni at y calendr Gregoraidd, o'dd lot o wrthwynepu achos bod y bobol yn talu treth am flwyddyn, (tua Mawrth y pumed-ar-hugen), ac yn eu tyb nhw o'dd un-ar-ddeg diwrnod arall i fynd cyn diwedd blwyddyn, wetyn, symudwyd y dyddiad i Eprill y pumed, sef, o gwmpas y Pasg, ac yno ma'fe byth!!

Nawrte –WŶE.

Yn yr hen amser, wŷe iawn a ddefnyddid, o'dd hi'n arferiad roi nhw i'r gweision a'r morynion ar y ffarm. Wetyn, o'dd y clochydd yn mynd rownd â basged 'da fe i'w clasgu, dyna o'dd ei dâl am ofalu am y fynwent. Ma hanes am Edward y 1af yn lliwo pum cant o wŷe'n aur, a'u rhoi nhw i bob un o'i weision ar Sul y Pasg. O'n i mewn eclw's yn Awstria un Sul y Pasg, a'r plant yn cario basgeti o wŷe wedi lliwo at yr allor, ac yna'n siten, dyma gorws yr Haleliwia yn atseinio drwy'r lle, o'dd côr lan ar y galeri tu ôl i ni, nhw'n canu, a'r eira dishgyn tu fa's,--gwefreddiol.!!!

Un enw sy'n gysylltietig a wŷe yw Faberge.

Wel pwy o'dd hwnnw pan o'dd e gatre?

Gemydd Rwsieg o'dd e, wedi'i eni yn1846 yn St. Petersburg. O'dd arferiad 'da fe i fynd i Amgueddfa'r Hermitage, o'dd yn ran o'r Winter Palace, sef palas y Tsar, a rownd y gornel o'u siop eme fe, o'dd e'n mynd yno i astudio'r geme.

Bu arddangosfa ym Moscow yn 1882. Un o'r darnau o'dd Faberge yn arddangos o'dd copi o freichled o'r bedwaredd ganrif c.c. o'dd yn yr Hermitage. Gwelodd y Tsar hwn ,a gweud bod e'n ffili gweld y gwa'nieth rhwng y ddou, fel canlyniad, gas Faberge y teitl, "Goldsmith by Royal Appointment",a ma'r rest yn hanes fel y dywetir.

Rhwng 1885 a 1917, fe wnaethpwyd hanner cant o wŷe addurnietig gan Faberge a'i gwmni, a syrpreis ymhob un, y rhai mwya' enwog i wragedd y Tsars bob Pasg, ac 'roedd bwriad i neud dou arall yn 1918, ond amharodd y Chwyldro ar hyn.

Dyma rhestr o enghreifftie:-

Yr un cynta' o'dd Wŷ yr Iâr, yn aur pur, yna tu fewn,melynwy aur, tu fewn wetyn iâr fach aur yna tu fewn 'to, coron fach i'w roi ar tshaen. Ar hyd y blynydde cafodd sawl un o'r syrpreises eu dwyn, dicon bach i'w roi mewn poced!!!!!

Wŷ y Paun—paun tu fewn iddo, ac o' droi 'da allweth fach bydde cwt y paun yn acor yn urddasol.

Wŷ y Palasau—deuddeg palas yn llunie bach yw'r syrpreis 'ma, ac yn acor mas fel consyrtina.

Wŷ y Trellis Deiamwnt—a thu fewn, eliffant ifori, ag allwe 'to i'w windo fe lan, a fydde fe'n cered o gwmpas.

Wŷ Lili'r Dyffryn—fy ffefryn i. Wrth bwyso bwtwn ar ei ochor, bydde llunie o'r teulu brenhinol yn popo lan ar y top!!!!!

UN arall te,

Wŷ y Dadeni---gopïodd e hwn ar ôl gweld casget mewn amgueddfa yn yr Almaen, gwerthwyd hwn am beder miliwn ar hugen!!!!!

Yn ystod y Chwyldro Rwsieg,meddiannwyd nhw i gyd, ac yna, aethant i ddwylo Stalin. Nawr, ma nhw mewn amgueddfeydd ne' dwylo preifat.

OND!! yn 2012, gwelodd gwerthwr scrap wŷ aur ar gownter bric a brac, o'dd e ddim yn gwpod beth o'dd e, ond bod e'n werthfawr, felly, talodd wyth mil amdano, a diwedd y gwt o'dd iddo ddarganfod taw un o'r rhai Faberge coll o'dd e, a phrynwyd e oddi wrtho fe an ucen miliwn!!!

Defnyddiwyd un o'r wŷe ma yn Octopussy, ffilm James Bond

y "Coronation Egg"

Wetes i bod rhai nawr mewn casgliate preifat, a--- chi'n barod am hyn? ma un yn y nheulu i!!! a na, 'w i ddim yn jôcan.

Enw hwn yw-- Wŷ y Dduges Marlborogh, a mae e 'n byw ym Mhalas Blenheim, wel, y Dduges Marlborogh bresennol yw merch y nghyfnither!!! ond stori arall rhamantus yw honno.

Ond cofiwch foesymgrymu pan welwch chi fi nesa!!!!!!!

Pasg Hapus i chi gyd.

Hannah Roberts

Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

Mewn colofn flaenorol wnes i fwrw golwg dros yr adnoddau hanes sydd ar gael ar-lein er mwyn chwilota eich hanes lleol a chenedlaethol, ond y tro hwn dwi am drafod sut y gallwch gofnodi'r hanes eich hun a chreu eich darn bach o hanes, trwy gymorth offer digidol.

Y ffordd orau a mwyaf hwylus i wneud hyn yw trwy greu stori ddigidol. Beth yn syml ydi stori ddigidol ond ffilm fer yn cofnodi digwyddiad, gall fod yn gyfweliad gyda unigolyn difyr a diddorol yn trafod pob math o bynciau, yn trafod gwrthrychau/lluniau sydd o bwysigrwydd hanesyddol. Fe allith fod yn hel atgofion am deulu, am gyfnod penodol mewn bywyd, yn ddigwyddiad neu'n brofiad yn y gorffennol sy'n bwysig i chi neu'r unigolyn, ble bydd arwyddocad ehangach. Mae'r syniad o greu straeon digidol wedi bod yn boblogaidd ers rhai blynyddoedd.

Dwi'n cofio bron i ddegawd yn ôl, fe roeddwn i'n mynd o amgylch neuaddau pentref yn cynnal cyrsiau straeon digidol gyda WEA Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a fynychodd y cyrsiau hyn yn bobl wedi ymddeol, ac yn fwy na heb, roedd ganddynt stôr eang o atgofion am eu magwraeth, yn gyfarwydd gyda'r hen enwau lleoedd neu hanes cymdeithasol yr ardal leol.

Dyna pam fod creu stori ddigidol yn werthfawr tu hwnt ac mae Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Storiel ym Mangor yn ddiweddar wedi bod yn chwilio am brofiadau pobl yn y cyfnod clo. Mewn deng mlynedd, mi fydd profiadau pobl yn y cyfnod clo yn hynod o bwysig ac arwyddocaol.

A'r hyn sy'n wych y dyddiau hyn, fe allwch chi fod yn ymchwilydd eich hun neu'n gynhyrchydd ffilm yn cofnodi'r hanes drwy gyfweliadau gyda phobl yr ydych yn ei hystyried yn hanesyddol bwysig i'ch bro, neu i Gymru. O ran llesiant iechyd, mae'n gyfle da hefyd i hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia er enghraifft. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiadau yn rhwystr i ni allu gwneud hyn ond gydag amser, gobeithio y gallwn ddychwelyd i gyfweld a phobl wyneb yn wyneb.

Er mwyn gallu creu stori ddigidol wrth gwrs, mae angen apiau sy'n gwneud y gwaith ar eich rhan. Os mai Apple yw eich ffôn neu dabled, chwiliwch am Adobe Spark yn yr App Store a'i llwytho, neu ar gyfer ffôn neu dabled Android, chwiliwch am YouCut neu PowerDirector yn y Play Store. Mae'r apiau hyn yn gymharol hawdd iawn i'w defnyddio, ac ewch ati i arbrofi gyda hwy. Gyda'ch fideo bersonol, mae yna ddewis i ychwanegu cerddoriaeth, troslais, delweddau, geiriau testun, fideos ac mae posib golygu clipiau o fewn un ffilm. Yn PowerDirector er enghraifft, does yna ddim cyfyngiad am ba mor hir ydi'r ffilm, ond wrth gwrs, mi gymerith fwy o amser i'w lwytho fel cyfanwaith wedyn i'ch ffon. Rhowch dro arni!

Os ydych chi'n adnabod rhywun, efallai yn aelod o'ch teulu sydd gan stori ddifyr i'w hadrodd, ewch ati i greu stori ddigidol i roi'r hanes llafar ar gôf a chadw – gellir gwneud hynny dros alwad fideo Zoom hyd yn oed! Mae yna gymaint o'n hanes llafar yn mynd yn angof, felly peidiwch ag oedi, ewch ati!

Pob lwc gyda'r cynhyrchu a'r hel hanes.

Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed ac angen hyfforddiant am ddim i greu stori ddigidol, mae croeso i chi ebostio Cymunedau.Digidol@wales.coop.

Ysgol Llanhari

Enillwyr Eisteddfod Rithiol Ysgol Llanhari 2021

Un o uchafbwyntiau'r tymor fu llwyddiant Eisteddfod Rithiol Ysgol Llanhari. Yn goron ar y cystadlu brwd oedd y cystadlaethau llenyddol a gynhaliwyd i gyfnod allweddol dau a'r adran uwchradd. Llongyfarchiadau mawr i'r dair merch a fu'n fuddugol eleni. Erin James o flwyddyn 13 gipiodd y brif gadair am yr ail flwyddyn yn olynol. Dyfarnodd ein beirinad Dr Elen Ifan o Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Caerdydd mai gwaith llenyddol Erin, sef sgript a phortread o'i thadcu oedd yn teilyngu'r wobr gyntaf. Enillwyd cadair Cyfnod Allweddol Tri gan Emily Harris o flwyddyn 9. Derbyniodd ganmoliaeth arbennig gan y beirniad am ei stori fer yn adrodd taith ffoadur i Gymru. Diolch yn fawr i staff yr Adran Gymraeg am eu dyfeisgarwch yn trefnu seremoniau rhithiol i'r merched. Pleser oedd gweld y seremoniau ar ddiwedd wythnos wych ar ôl hanner tymor lle cyhoeddwyd enillwyr yr holl gystadlaethau gan yr athrawon mewn fideos arbennig. Mae dyfodol traddodi beirinadaethau yn ddiogel yn nwylo athrawon Llanhari! Y drydedd yn y drindod yw Isla Powell o Ddosbarth Barcud a enillodd gadair yr adran gynradd am ysgrifennu am ei phrofiadau yn ystod y pandemig. Llongyfarchiadau mawr iawn i Isla ac i holl enillwyr yr adran gynradd a wobrwywyd yn yr wythnos y dychwelodd holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol Dau I'r ysgol. Diolch i'r holl ddisgyblion am eu hymdrechion a braf gweld cymaint ohonynt yn oriel yr enillwyr ar drydar ac instagram! Yn ystod cyfnod anodd, gwych oedd gweld brwdfrydedd disgyblion o oed meithrin hyd at y chweched dosbarth yn cymryd rhan. Tybed sut eisteddfod fydd hi yn 2022?

Erin James Blwyddyn 13

Emily Harris Blwyddyn 9

Isla Powell Dosbarth Barcud

Ysgol Garth Olwg

Yr Ysgol Isaf

Mae disgyblion yr Ysgol Isaf wedi bod yn gweithio'n galed trwy'r tymor i greu llyfr gwybodaeth am anifeiliaid ar gyfer eu rhieni a'r adran Wyddoniaeth. Maent wedi creu gwaith arbennig o dda chwarae teg! Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn

3 a 4 am gael eu cerddi "Peculiar Pets" wedi'u dewis i gael eu cyhoeddi mewn llyfr. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i Nel Williams (Bl4), Beca George (Bl4), Ella -Rose Alford (Bl3) a Lillian Facey (Bl3) o Ddosbarth Mrs Thomas (Clychau'r Gog) am dderbyn tystysgrif teilyngdod am eu darnau ysgrifennu Saesneg gwreiddiol ar gyfer cystadleuaeth 'A Young Writers' Anthology'.



Gwnaeth ddisgyblion yr Ysgol Isaf ac ysgolion cynradd y clwstwr fwynhau sesiwn gan yr awdures Anni Llŷn yn arw wrth iddi roi sesiwn i'r disgyblion ar sut i ysgrifennu cerddi.

Ceir P1NK

Dros y cyfnod clo fe gysyllton ni gyda chwmni 'P1NK' sef cwmni sydd yn ymwneud â digwyddiadau ceir anghyffredin. Cafodd y cwmni 'P1NK' ei sefydlu ym Mro Morgannwg gan Lisa Marie Brown a Leon Brown. Gan ein bod yn astudio Ffotograffiaeth a Graffeg fel opsiynau Lefel A, penderfynom gysylltu gyda nhw i gael cyfle arbennig i weithio ar dechnegau a delweddau gwahanol. Wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn rhoddodd y cymhelliant i ni ddefnyddio'r lluniau yn ein portffolio gwaith.

Mae'r cwmni yn ysbrydoli pobl ifanc trwy gynnig cyfleoedd i gael profiad gyda'r ceir anhygoel hyn. Mae Lisa a Leon yn frwdfrydig ac yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc gael gyrfa o fewn y byd ceir. Felly pan gysyllton ni gyda'r cwmni, roedd y cwmni yn hyblyg iawn ac yn fodlon i ni ddefnyddio'r ceir o fewn ein gwaith. Roedd cael cyfle i weld 'McLaren 600LT', 'Ferrari California', 'Porcshe 911 Carrera' a 'BMW M5 Competition' yn fyw yn brofiad bythgofiadwy.

Roedd y cwmni yn fodlon gyrru'r ceir i ni allu cymryd action shots. Wrth feddwl am ein cyfansoddiad ar gyfer y lluniau roedd rhaid ystyried y cefndir ac awyrgylch y llun. Penderfynom ni i ddefnyddio'r maes awyr yn Sain Tathan yn y Fro gan ei fod yn wagle mawr i allu profi gweld y ceir ar eu gorau. Mae'r cefndir yn cynnwys darnau o hen awyrennau ac adeiladau o'r rhyfel, felly roedd hyn yn ategu at yr ansawdd. Er mwyn gallu cael llun llwyddiannus a gwahanol defnyddion ni fwg pinc a chafodd effaith arbennig yn ein lluniau. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i gwmni 'P1NK' ac i Lisa a Leon am y profiad arbennig a hoffwn annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn ceir i gysylltu gyda nhw! Gan Georgia Maisey Bl 12 a Bailey Parry Smith Bl 13.

Diwrnod y Llyfr

Ar ddydd Iau'r 4ydd o Fawrth, dathlwyd Diwrnod y Llyfr. Cafwyd diwrnod i'r brenin yn dathlu llyfrau, yn darllen a gwobrwyo ymdrechion disgyblion am ymgymryd â gweithgareddau hwyl.

Gwisgodd plant y dosbarth meithrin fel cymeriadau o lyfrau ynghyd â Ms Gunn - a ddysgodd amserlen lawn o wersi byw wedi gwisgo fel y Wrach Ddrwg o'r Gorllewin!

Cynhyrchodd ddisgyblion yr ysgolion Isaf a Chanol waith ardderchog wedi'i ysbrydoli gan lyfrau. Creodd lawer llyfrnod diddorol, gwnaeth rai recordio trailers tra bod ambell i berson wedi recordio eu hunain yn darllen darn cyffrous o lyfr! Roedd y disgyblion wedi ein syfrdanu gan ansawdd yr holl waith a hoffem ddiolch i bawb a gymerodd rhan - yn ddisgyblion a rhieni.

Gobeithio gwnaeth y disgyblion fwynhau'r gweithgareddau a'r dathliadau. Ymlaen â'r darllen!

Ysgol Garth Olwg
(parhad)

Delia Smith y Dyfodol!

Yn ystod y cyfnod clo gwnes i greu llyfr coginio ar gyfer fy narn terfynol ffotograffiaeth Blwyddyn 13. Gwnaeth fy syniad am greu llyfr coginio ar gyfer fy narn terfynol ddatblygu o anoddefiad i wahanol fwydydd sydd gen i a hefyd rydw i'n caru coginio! Datblygais anoddefiad i glwten a llaeth yn 2016 ac ers yr anoddefiad hwn i fwydydd penodol rydw i wedi darganfod llawer o ryseitiau heb glwten a llaeth sydd yn anhygoel! O ganlyniad i hyn penderfynais greu llyfr coginio sy'n cynnwys ryseitiau heb glwten, a llaeth a hefyd sy'n addas i Feganwyr! Rydw i'n hoff iawn o fwyd fegan ac rydw i'n ymwybodol nad oes llawer o lyfrau coginio fegan ar gael felly penderfynais greu un! Dechreuais wrth greu strwythur o sut byddwn yn creu'r llyfr hwn, felly es i ymlaen i feddwl am ba ryseitiau hoffwn ddefnyddio, lliwiau, maint ac edrychiad. Roedd llawer o bethau roedd rhaid ystyried. Ar ôl datblygu fy syniadau a chreu'r ryseitiau ac yna tynnu'r llun roeddwn i'n barod i greu'r llyfr. Defnyddiais ap o'r enw BonusPrints sef ap sy'n printio llyfrau amrywiol. Es i ymlaen i osod teitlau, lluniau, cynhwysion, ryseitiau a phopeth roeddwn i eisiau cynnwys yn y llyfr ar yr ap. Ar ôl i mi wneud hyn roedd y llyfr yn barod i archebu a chael ei brintio! Mwynheais wneud hyn yn fawr iawn ac rydw i mor hapus gyda'r canlyniad!

Gan Lily Wheeler-Sexton,
Blwyddyn 13.



Canolfan Garth Olwg

SGWRS Y MIS

CANOLFAN DYSGU GYDOL OES
Garth Olwg
LIFELONG LEARNING CENTRE

Cipolwg ar enwau lleoedd Taf Elái gyda Dr Dylan Foster Evans

Mae hanes amaethyddol, diwydiannol a chymdeithasol yr ardal ddiddorol hon wedi gadael ei ôl ar ei henwau lleoedd. Dyma gyfle i glywed rhagor am ystyr rhai o enwau lleoedd ardal Taf Elái a'u harwyddocâd dros y canrifoedd.

7:30 Nos Iau,

22 Ebrill 2021

Dros Zoom

I gofrestru ar gyfer y sgwrs ewch i...

www.bookwhen.com/gartholwg

www.garth-olwg.cymru

01443 570075

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf